# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 3 Ebrill 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 202(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Lynne Neagle (Torfaen):

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fynediad at ofal cleifion mewnol CAMHS i blant a phobl ifanc risg uchel yng Nghymru?

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):

Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch dyfodol gwaith Trostre yn Llanelli?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i atal dros dro Reolau Sefydlog 11.16 a 12.20(i) er mwyn caniatáu cynnal dadl ar y cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog (5 munud)

**NDM7033 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r eitem fusnes nesaf gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 3 Ebrill 2019.

## Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 01-19 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 1 Ebrill 2019 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 (15 munud)

**NDM7032 Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 01-19 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 1 Ebrill 2019 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9

2. Yn cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Plant Sydd wedi cael eu Cam-drin yn Rhywiol

(30 munud)

**NDM7021** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnig i gael bil i ddiwygio a gwella cefnogaeth ar gyfer plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) cyflwyno'r Model Barnahus o gymorth i ddioddefwyr gyda phwyslais therapiwtig;

b) gweithio gyda'r heddlu i ddefnyddio'r Model Barnahus o gynnal ymchwiliad i bob achos o gam-drin plant yn rhywiol; ac

c) yn cyflwyno newidiadau statudol i wella llety brys a llety dros dro i blant sydd wedi'u cam-drin, sy'n methu â dychwelyd i'w cartref neu sy'n ddigartref.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gweithredu Datganoli Cyllidol yng Nghymru

(60 munud)

**NDM7030** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Rhoi datganoli cyllidol ar waith yng Nghymru (2019), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2019.

**Cefnogwyr**

Sian Gwenllian (Arfon)

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Timau Iechyd Meddwl Cymunedol

(60 munud)

**NDM7028** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Cyd Adolygiad Thematig Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol.

2. Yn nodi ymhellach y nifer gynyddol o atgyfeiriadau i'r timau iechyd meddwl cymunedol ledled Cymru.

3. Yn gresynu at y diffyg cydraddoldeb rhwng gwasanaethau iechyd corfforol a gwasanaethau iechyd meddwl.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella'r cymorth a ddarperir gan dimau iechyd meddwl cymunedol, a mynediad ato, gan gynnwys:

a) cynyddu gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl mewn termau real bob blwyddyn hyd at ddiwedd tymor y Cynulliad;

b) sicrhau bod timau argyfwng ar gael 24/7 ym mhob adran achosion brys mawr;

c) gweithio ar frys gyda byrddau iechyd i wella cyfleusterau iechyd meddwl cymunedol ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth a staff; a

d) codi ymwybyddiaeth ynghylch mynediad at dimau iechyd meddwl cymunedol fel y gall defnyddwyr y gwasanaeth gael y cyngor gorau posibl.

'Cyd-adolygiad Thematig Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru o Dimau Iechyd meddwl Cymunedol'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwyntiau 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn cydnabod yr angen i sicrhau cydraddoldeb rhwng gwasanaethau iechyd y corff a gwasanaethau iechyd meddwl;

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella’r cymorth a ddarperir gan dimau iechyd meddwl cymunedol a gwella’r mynediad at y cymorth hwnnw, gan gynnwys:

a) parhau i gynyddu’r gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl mewn termau real bob blwyddyn hyd at ddiwedd tymor y Cynulliad, yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad o wariant yn 2019;

b) sicrhau bod trefniadau ar waith i ymateb i argyfyngau iechyd meddwl bob awr o bob dydd ym mhob un o’r adrannau achosion brys mawr;

c) gweithio ar frys gyda’r byrddau iechyd i wella cyfleusterau iechyd meddwl cymunedol ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth a staff; a

d) codi ymwybyddiaeth ynghylch mynediad at dimau iechyd meddwl cymunedol fel y gall defnyddwyr y gwasanaeth gael y cyngor gorau posibl.

**Gwelliant 2 -** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ym mhwynt 4, ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

cyhoeddi data perfformiad ystyrlon ar amseroedd aros, gan gynnwys grwpiau oedran a diagnosis, fel y gall hawliadau'n ymwneud â gwella gael eu gwirio'n annibynnol.

**Gwelliant 3 -** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ym mhwynt 4, ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

sicrhau bod timau iechyd meddwl cymunedol yn cysylltu â gwasanaethau hawliau lles i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed yn erbyn asesiadau'r adran gwaith a phensiynau a phrosesau gwneud penderfyniad sydd yn aml yn gwaethygu cyflyrau iechyd meddwl .

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7027** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Pwy sy'n elwa ar dai cymdeithasol?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2019